Cymraeg Ail Iaith

Cymraeg Ail Iaith

Nod y cwrs Lefel A yw datblygu sgiliau cyfathrebu – darllen, ysgrifennu a siarad mewn amgylchfyd gymdeithasol a galwedigaethol, a lledu gorwelion y disgyblion fel y gallant werthfawrogi llenyddiaeth a diwylliant Cymru.

Lleolir y cwrs yn Bro Pedr

Cysylltwch â: Miss N. Jones

Strwythur a Chynnwys y Cwrs

Uwch Gyfrannol (UG)		Uwch (UG + A2)
Uned 1: Y Ffilm a Llafaredd Trafod y diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru: y theatr, darlledu (radio a theledu), ffilm. Trafod y ffilm 'Hedd Wyn' Trafod y themâu sy'n deillio o'r ffilm Pwysiad: UG – 40% A2 – 20%		**Uned 4: Y Ddrama a Llafaredd** Trafod diwylliant cyfoes amlgyfrwng yng Nghymru: y theatr, darlledu ar radio a theledu, ffilm, newyddiaduriaeth Gymraeg, cylchgronau, papurau newydd. Trafod y ddrama, " Siwan"gan Saunders Lewis Sgiliau synoptig Pwysiad: A2 – 15%
Uned 2: Gwaith Cwrs Ysgrifenedig Llunio pecyn 2000 i 3000 o eiriau ar un o'r canlynol: ardal benodol, elfen gymdeithasol, ddiwylliannol, alwedigaethol, hanesyddol neu wleidyddol. Pwysiad: UG – 30% A2 – 15%		**Uned 5: Y Stori Fer a Thrawsieithu** C1. Astudiaeth fanwl o 4 stori fer gan Mihangel Morgan ac Ioan Kidd C2. Ymatebion ysgrifenedig Cymraeg i eitemau newyddion, testunau cyfoes ac ati yn Saesneg. Pwysiad: 20%
Uned 3: Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth Defnyddio'r Iaith: Esbonio ystyr geiriau tebyg a phriod-ddulliau Cywiro gwallau mewn brawddegau Ysgrifennu'n bersonol ar bwnc penodol Barddoniaeth – astudiaeth fanwl o 7 cerdd. Trafod cynnwys, themâu, arddull ac agwedd y bardd at fywyd. Pwysiad: UG – 30% A2 – 15%		**Uned 6: Defnyddio'r Iaith a Gwerthfawrogi Barddoniaeth** Defnyddio'r Iaith: Llunio brawddegau i ddangos ystyr Cyfieithu i'r Gymraeg frawddegau yn cynnwys eitemau iaith penodol. Barddoniaeth: Ymateb i gerdd anghyfarwydd ar y themâu cariad, cyfrifoldeb a Chymru, yn cynnwys asesu synoptig. Pwysiad: A2: 15%
UG = 3 uned (astudir ym Ml.12) gydag U2 = 3 uned (astudir ym Ml.13) yn gyfartal i Lefel A llawn		

Cymraeg Ail Iaith

Cymraeg Ail Iaith

Asesu:

Blwyddyn 12 UG (3 Uned)	Blwyddyn 13 A2 (3 Uned)
Uned 1 – Arholiad llafar tua hanner awr Uned 2 – Gwaith cwrs ysgrifenedig Uned 3 – Arholiad ysgrifenedig 2 awr	Uned 4 – Arholiad llafar terfynol ac asesiad synoptig tua hanner awr Uned 5 – Arholiad ysgrifenedig 1¾ awr Uned 6 – Arholiad ysgrifenedig terfynol 1¾ awr

Sgiliau'r pwnc

Gwerthfawrogi a Dadansoddi

Cyfathrebu

Trafod a Dadlau

Sgiliau Ysgrifennu

Technoleg Gwybodaeth

Sgiliau darllen

Cynllunio a chreu

Cyfeirio a chasglu gwybodaeth

Dilyniant 18+

Cymhwyster hollol dderbyniol ar gyfer mynediad i brifysgol ac addysg uwch.

Mae'r posibiliadau gyrfa yn cynnwys:

Radio a Theledu, Dysgu, Yr Heddlu, Cyfieithwyr, Llywodraeth Leol, Bancio, Gweithgareddau Hamdden, Newyddiaduraeth, Busnes, Llyfrgellyddiaeth, Gwaith Cymdeithasol, Nyrsio, Gofal Plant.

Cymraeg Ail Iaith